# Papur y Porth

Rhifyn 16   Hydref 2025

SLIDESMANIA.COM

# Croeso gan y Pennaeth



# Welcome from the Head

Mae wedi bod yn hanner tymor prysur iawn yma yn Ysgol Parc y Tywyn, ac mae'n hyfryd gweld pawb wedi ymgartrefu'n dda yn eu dosbarthiadau newydd.

Rydym wedi mwynhau amryw o weithgareddau gwych – o ddigwyddiadau chwaraeon, i ddathlu Diwrnod Roald Dahl, T. Llew Jones ac Owain Glyndŵr, heb anghofio ein disgyblion talentog yn yr Eisteddfod leol ac, wrth gwrs, y Disgo Calan Gaeaf! Diolch o galon i'n CRhA gwych am eu trefniadau a'u gwaith caled – hyd yma rydym wedi codi £466 i'r ysgol. Diolch am gefnogi.

Ar hyn o bryd mae presenoldeb yr ysgol gyfan yn 93.51%, sef tua 1% yn is na'r un adeg y llynedd. Dewch i ni weithio gyda'n gilydd i gyrraedd ein targed o 95%, gan sicrhau bod pawb yn bresennol ac ar amser bob dydd.

SLIDESMANIA.COM

# Croeso gan y Pennaeth



# Welcome from the Head

It's been a very busy half term here at Ysgol Parc y Tywyn, and it's wonderful to see all pupils settling so well into their new classes.

We've enjoyed a variety of fantastic activities – from sporting events to celebrating Roald Dahl Day, T. Llew Jones and Owain Glyndŵr, not forgetting our talented pupils at the local Eisteddfod, and of course, our fantastic Halloween Disco! A huge thank you to our brilliant PTA for all their hard work – so far, we've raised £466 for the school.

Our whole-school attendance currently stands at 93.51%, which is about 1% lower than this time last year. Let's work together to reach our target of 95%, making sure every pupil is in school and on time every day.

SLIDESMANIA.COM

# Diogelu

# Safeguarding

## Swyddogion Diogelu'r Ysgol
## School Safeguarding Officers



**Mrs Angharad Williams**
Swyddog Diogelu Dynodedig Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Designated Safeguarding Officer



**Mrs Elin Zych**
Dirprwy Swyddog Diogelu Dynodedig Ysgol Parc y Tywyn
Deputy Designated Safeguarding Officer

| Os oes gennych unrhyw gonsyrn am ddiogelwch disgybl, cysylltwch â'r staff hyn yn syth. | If you have any concerns regarding a pupil's safety, contact these staff immediately. |
|---|---|

Yn absenoldeb y ddwy uchod, chysylltwch â:
If neither of the above are available, please contact:



**Miss A.Griffiths**



Llywodraethwr â chyfrifoldeb am ddiogelu:
Governor with responsibility for safeguarding: **Mr Mathew Davies**

*Os hoffech wneud cwyn am unrhyw aelod o staff, cysylltwch a'r Pennaeth neu Cadeirydd y Llywodraethwyr.*
If you wish to make a complaint against any member of staff, contact the Headteacher or the Chair of Governors

### Manylion cyswllt defnyddiol / Useful contact details

* Tim Atgyfeirio Canolog Ty Elwyn:
  Central Referral Team: 01554 742322
* E-bost/ E-mail:
  CRTChildren@carmarthenshire.gov.uk
* Tu allan i Oriau Swyddfa
* Out of Office Hours : : 0300 333 2222

Swyddog Diogelu'r Sir 07785 716992
County's Safeguarding Officer

* Becky Thomas: 01554 742369 07976 466399

Uwch Weithiwr Cymdeithasol: Ysgolion
Senior Social Worker: Schools

* Carmarthenshire Local Safeguarding Children's Board 01267 246544
* NSPCC Helpline – 0800 800 500
* Dyfed Powys Police – 0845 330 2000

**Mae diogelu yn fusnes i bawb!**
**Safeguarding is everybody's business!**

SLIDESMANIA.COM

# Presenoldeb / Attendance

Pob disgybl, ar amser, pob dydd.

Every student, on time, every day

**PRESENOLDEB yr Ysgol**
**BODDHAOL**
**93.51%**
**The school ATTENDANCE**
**SATISFACTORY**

| Canran Presenoldeb | Erbyn diwedd y flwyddyn<br>By the end of the year | Canlyniad / Outcome |
|---|---|---|
| **95-100%** | Y cyfle gorau o lwyddiant<br>***Best chance of success*** | Mae'ch plentyn yn cymryd mantais lawn o bob cyfle dysgu.<br>***Your child is taking full advantage of every learning opportunity.*** |
| **90-95%** | Colli o leiaf 2 wythnos o ddysgu<br>***At least 2 weeks of learning missed*** | Boddhaol. Efallai y bydd rhaid i'ch plentyn dreulio amser yn dal i fyny â gwaith.<br>***Satisfactory. Your child may have to spend time catching up with work.*** |
| **85-90%** | Colli o leiaf 4 wythnos o ddysgu<br>***At least 4 weeks of learning missed*** | Gallai'ch plentyn fod mewn perygl o dangyflawni ac mae angen cefnogaeth ychwanegol oddi wrth ych i ddal i fyny â gwaith.<br>***Your child may be at risk of underachieving and may need extra support from you to catch up with work.*** |
| **80-85%** | Colli o leiaf 5½ wythnos o ddysgu<br>***At least 5 ½ weeks of learning missed*** | Mae presenoldeb gwael eich plentyn yn cael effaith arwyddocaol ar ddysgu.<br>***Your child's poor attendance has a significant impact on learning.*** |
| Islaw/ under 80% | Colli o leiaf 7½ wythnos o ddysgu<br>***At least 7½ weeks of learning missed*** | Mae'ch plentyn yn colli addysg eang a chytbwys. Rydych mewn perygl o gael eich erlyn.<br>***Your child is missing out on a broad and balanced education.*** |

SLIDESMANIA.COM

# CRhA



Croeso cynnes iawn i'n haelodau newydd. Diolch o galon am eich cefnogaeth barhaus — rydym yn edrych ymlaen at flwyddyn lwyddiannus gyda'n gilydd.
Cafodd y plant amser gwych yn y Disgo Calan Gaeaf a drefnwyd gan y CRhA. Roedd y neuadd yn edrych yn hyfryd, a diolch i'w hymdrechion anhygoel codwyd £470 i'r ysgol hyd yma!

Diolch i'ch cefnogaeth, mae'r CRhA hefyd wedi gallu rhoi **£3,000** i'r ysgol i brynu pedwar tipi synhwyraidd pren i fuarth yr Iau a Dysgu Sylfaen er mwyn rhoi cysgodfan distaw i blant ymlacio yn ystod amseroedd chwarae. Hefyd, rhoddwyd cyfarpar newydd i'r Dysgu Sylfaen ac rydym yn wirioneddol ddiolchgar am eich caredigrwydd a'ch cefnogaeth barhaus.



SLIDESMANIA.COM

# PTA

A very warm welcome to our new members. Thank you sincerely for your continued support — we look forward to a successful year together.
The children had a wonderful time at the Halloween Disco organised by the PTA. The hall looked fantastic, and thanks to everyone's amazing efforts, we've raised £470 for the school so far!


Thanks to your continued support, the PTA has also been able to donate £3,000 to the school to purchase four wooden sensory teepees for the Junior and Foundation Phase yards, providing a quiet, calming space for children to relax during playtimes. The donation also includes new equipment for the Foundation Phase. We are truly grateful for your kindness and ongoing support.





SLIDESMANIA.COM

# Meithrin









Yr hanner tymor hwn, mae'r plant wedi bod yn archwilio'r stori glasurol Y Feipen Enfawr. Mae nhw wedi mwynhau ystod eang o weithgareddau hwyliog a diddorol yn seiliedig ar y stori, gan helpu i ddod â'r llyfr yn fyw. Uchafbwynt penodol oedd peintio eu meip eu hunain a didoli gwahanol lysiau yn ôl maint - yn union fel yn y stori! Nid yn unig y cefnogodd y gweithgareddau hyn eu creadigrwydd a'u sgiliau mathemateg ond fe'u cyflwynwyd hefyd i lawer o eirfa newydd. Mae wedi bod yn ffordd wych o gyfuno adrodd straeon â dysgu ymarferol.



This half term, the children have been exploring the classic tale *The Enormous Turnip*. They've enjoyed a wide range of fun and engaging activities based around the story, helping to bring the book to life. A particular highlight was painting their own turnips and sorting different vegetables by size – just like in the story! These activities not only supported their creativity and mathematical skills but also introduced them to lots of exciting new vocabulary. It's been a fantastic way to combine storytelling with hands-on learning!

SLIDESMANIA.COM




# Derbyn

Cawsom amser bendigedig yn ein dosbarth Derbyn yn dathlu T. Llew Jones! Roedd pawb wedi mwynhau gwisgo lan fel cymeriadau o'i straeon ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hwylus drwy'r dydd.

We had a fabulous time in our Reception class celebrating T. Llew Jones! Everyone loved dressing up as characters from his stories and taking part in fun activities throughout the day.

SLIDESMANIA.COM



# Derbyn a Blwyddyn 1

Am hanner tymor arbennig! Ein stori y tymor yma oedd 'Y Feipen Enfawr,' datblygom sgiliau di-ri yn archwilio'r stori yma. Rydym wedi ail-ddweud y stori o'r cof, actio'r stori gan ddefnyddio cymeriadau yn y byd bach, mesur llysiau go iawn a chreu map stori ein hunain. Cawsom wledd enfawr wrth baratoi, coginio a blasu cawl, iym, iym, blasus iawn!

What a wonderful half term we have had in Reception and Year 1! Our focus story has been The Enormous Turnip — and what an enormous amount of fun we've had exploring it! The children have enjoyed re-telling the story, recreating it in our small world area, measuring real vegetables, and even creating their own story maps. The highlight of the term was definitely preparing, cooking, and tasting our very own delicious cawl — the perfect way to bring our learning to life!

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 1

Am ddechrau gwych i'r flwyddyn ysgol i Flwyddyn 1! Rydyn ni wedi mwynhau astudio ein thema 'Un tro...a nawr!' ac un uchafbwynt oedd ail-greu'r stori draddodiadol, 'Y Feipen Enfawr. Rydyn ni wedi bod yn brysur yn dyblu ac yn haneru rhifau yn ein gwersi mathemateg, ac rydym wedi dysgu am fwydydd a dyfwyd yng Nghymru amser maith yn ol ac am fwydydd o wledydd eraill rydym yn eu mwynhau heddiw. Rydyn ni wedi dathlu Diwrnod Roald Dahl, Diwrnod T. Llew Jones, Pythefnos Masnach Deg, a dysgu am sut rydym ni i gyd yn yn ystod ein hastudiaeth o wrth-hiliaeth. Rydyn ni hefyd wedi treulio llawer o amser y tu allan yn edrych ar gemau buarth traddodiadol. Edrychwn ymlaen at fwy o anturiaethau yn yr hanner tymor nesaf!







What a great start to the school year it has been for Year 1! We have enjoyed studying our theme 'Once upon a time...and now!' and a highlight has been recreating the traditional story of 'The Enormous Turnip'. We've been busy doubling and halving numbers in our maths lessons. We also learned about foods that were grown in Wales a long time ago and foods from other countries we enjoy today. We've celebrated Roald Dahl Day, T. Llew Jones Day, Fair Trade Fortnight, and learned about how we're all different during our study anti-racism. We've also spent lots of time outside looking at games that used to be played in school a long time ago. We look forward to more adventures in the next half term!

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 2



Mae Blwyddyn 2 wedi bod yn mwynhau dysgu am Chwedlau Cymru. Rydym wedi bod yn creu mapiau stori ac yn ail-adrodd stori Llyn Llech Owain. Uchafbwynt ein hanner tymor oedd ein hymweliad â Llyn Llech Owain lle cawsom weld y llyn a dychmygu lle digwyddodd y chwedl drosom ein hunain. Rydym hefyd wedi astudio gwaith Louise Jones i greu ein paentiad ein hunain o'r llyn.

Year 2 have been enjoying leanring about Welsh Legends. We have been creating story maps and retelling the story of Llyn Llech Owain. The highlight of our half term was our visit to Llyn Llech Owain were we were able to see the lake and imagine where the legend took place for ourselves. We have also studied the work of Louise Jones to create our our own painting of the lake.

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 3 Mr Lang-Ford

I ddathlu Diwrnod T. Llew Jones, aeth dosbarth Blwyddyn 3 ar daith gyffrous drwy un o'i straeon mwyaf poblogaidd, Un Noson Ola Leuad. Archwiliodd y plant fywyd yr awdur Cymreig eiconig cyn cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol wedi'u hysbrydoli gan y llyfr. Defnyddiwyd cyfeiriannau i chwilio am drysor cudd, mesurwyd rhaff y fuwch ar y to, edrychwyd ar sut roedd cylchoedd tylwyth teg yn eu heneiddio'n hudol a pherfformiad dramatig o Arthur yn tynnu'r gleddyf o'r garreg – gan ddod â'r chwedl yn fyw. Roedd yn ddiwrnod llawn dysgu, creadigrwydd a dathlu llenyddiaeth Gymraeg.

To mark T. Llew Jones Day, our Year 3 class embarked on a thrilling journey through one of his most beloved stories, One Moonlit Night. The children explored the life of the iconic Welsh author before diving into a series of imaginative activities inspired by the book. They used coordinates to hunt for hidden treasure, measured the cow on the roof's rope, discovered how fairy circles could mysteriously age them and dramatic performance of Arthur pulling the sword from the stone, bringing the legend to life. It was a day full of learning, creativity, and celebration of Welsh literature.











SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 3 Miss Jones

Mwynhaodd Blwyddyn 3 wylio perfformiad hwyliog ac ymarferol gan '*Mewn Cymeriad'* am y Celtiaid. Daeth y sesiwn ryngweithiol â hanes yn fyw, gan ganiatáu i'r plant ddysgu mewn ffordd gyffrous a chofiadwy. Cafodd pawb amser gwych yn gwisgo lan ac yn actio fel y Celtiaid a'r Rhufeiniaid, tra'n darganfod sut oedd bywyd yn ystod y cyfnod hynod ddiddorol hwnnw.





Year 3 thoroughly enjoyed watching a fun and hands-on performance from '*Mewn Cymeriad'* all about the Celts. The interactive session brought history to life, allowing the children to learn in an exciting and memorable way. Everyone had great fun dressing up and acting as both the Celts and the Romans, while discovering what life was like during that fascinating period of history.

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 4 Miss Evans

Mae Blwyddyn 4 wedi mwynhau hanner tymor llawn gweithgareddau creadigol a dysgu ysbrydoledig. I ddathlu Diwrnod Roald Dahl fe wnaethon nhw gymryd rhan yn frwdfrydig gan wisgo fel eu hoff gymeriad o lyfrau'r awdur. Fe wnaeth y disgyblion greu rysáit 'Marvellous Medicine' eu hunain, cynhyrchu celf yn null Quentin Blake, a chreu proffil cymeriad am un o gymeriadau Roald Dahl ar Adobe. Buom hyd yn oed yn bwydo'r Crocodeil Enfawr wrth ddysgu am fwy na, llai na ac yn hafal i. Bu'n gyfnod llawn dychymyg, creadigrwydd a hwyl wrth ddysgu.













Year 4 have enjoyed a half term full of creative activities and inspiring learning experiences. To celebrate Roald Dahl day they took party enthusiastically by dressing up as their favourite characters from his books. They created their own Marvellous Medicine recipes, produced artwork in the style of Quentin Blake and created fact files about one of Roald Dahls characters on Adobe. We even fed the enormous crocodile by learning about greater than and less than.

It has been a half term filled with imagination, creativity and fun learning opportunities.

SLIDESMANIA.COM

# Y Cyngor Eco

Mae Cyngor Eco yr ysgol wedi gwneud dechrau gwych i'r hanner tymor hwn!

- Yn gyntaf, rydym wedi derbyn llwyth o 50 o goed. Bydd aelodau'r Cyngor yn gwisgo eu weliis ac yn dod allan i helpu i blannu'r rhain i gyd. Mae'n brosiect cyffrous a fydd yn gwella ein tir ysgol i'r dyfodol drwy greu goedwig ysgol. Diolch enfawr i Bob a Fforwm Amgylchedd Porth Tywyn a Phorth Pembre am helpu i wneud hyn yn bosibl!
- Hefyd, rydym wedi dechrau ar y gwaith o sefydlu siop gyfnewid gemau i'r disgyblion. Bydd hyn yn rhoi cyfle i hen gemau gael cartrefi newydd a pharhau â'r hwyl!
- Yn olaf, rydym yn ymchwilio i ffyrdd y gallwn gefnogi a hyrwyddo ailgylchu dillad yn yr ysgol. Rydym yn chwilio am y cynllun gorau i wneud hynny'n hawdd i bawb.

**Mae'r Cyngor Eco yn gweithio'n galed i wneud ein hysgol yn wyrddach!**

The school's Eco Council has made a fantastic start to this half-term!

- Firstly, we have had 50 trees delivered. Council members will be donning their wellies and coming out to help plant them all. It's an exciting project that will enhance our school grounds for the future by creating a forest school. Thank you to Pembrey & Burry Port Environment Forum for helping to make this happen!
- We have also started work on setting up a swap shop for games for pupils. This will allow old games to find new homes and the fun to continue!
- Finally, we are investigating ways we can support and promote clothing recycling within the school. We are looking for the best scheme to make it easy for everyone.

**The Eco Council is working hard to make our school greener!**



SLIDESMANIA.COM

# Y Cyngor Ysgol






Rydym wedi bod yn brysur iawn yn barod eleni. Fe wnaethon ni gyflwyno ein syniadau ar gyfer y flwyddyn yn y gwasanaeth. Rydym wedi archebu offer chwarae ar gyfer amseroedd chwarae. Ochr yn ochr â'n Gwasanaeth Cynhaeaf, fe gasglon ni fwyd ar gyfer y Banc Bwyd. Rydym wedi gwneud cais i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am 'tippees' amser tawel ar yr iard er mwyn gwella ein cyfleusterau awyr agored. Ar ôl hanner tymor rydym wedi trefnu sesiynau Chwarae ac Aros i rieni a phlant chwarae am awr ar ôl ysgol ar yr iard. Dewch i ymuno â ni!

We have been very busy already this year. We introduced our ideas for the year in assembly. We have ordered play equipement for playtimes. Alongside our Harvest Service we collected food for the Food Bank. We have made a request to the PTA for some tippees for quiet time on the yard to improve our outdoor facilities. After half term we have arranged a Play and Stay sessions for parents and children to play for an hour after school on the yard. Come and join us!

SLIDESMANIA.COM

# Y Criw Cymraeg



Rydym am wella ein Cymreictod eleni!  Un o'n prif flaenoriaethau yw sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn fyw ac yn fywiog ar y buarth ac ar draws yr ysgol.
Rydym wedi gofyn i deuluoedd gasglu topiau poteli llaeth er mwyn gwobrwyo Cymreictod – felly bydd topiau'n cael eu rhoi i blant sy'n defnyddio'r Gymraeg ac yn dangos balchder yn ein hiaith a'n diwylliant!

Rydym eisoes wedi cynnal gwasanaeth arbennig i gyflwyno ein hunain, ac rydym yn gyffrous iawn i rannu newyddion gyda chi wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen ar ein taith i gryfhau'r Gymraeg yn Ysgol Parc y Tywyn.

We're on a mission to boost our Welsh this year!  One of our top priorities is to make sure the Welsh language is alive and spoken  across the yard and throughout the school.
We've asked families to collect milk bottle tops  so we can reward Cymreictod – children will earn tops for speaking Welsh and showing pride in our language and culture!

We've already held a special assembly to introduce ourselves, and we're so excited to share updates with you as the year goes on about how we're developing the use of Welsh across Ysgol Parc y Tywyn.

SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 5

Amser anturus llawn hwyl a sbri yn Llain! Cawsom gyfle i roi cynnig ar amrywiaeth o weithgareddau cyffrous – dringo'r rhaffau uchel, caiacio ar y llyn, rhedeg drwy'r cwrs mwdlyd, ac ymarfer ein sgiliau saethyddiaeth. Fe wnaethom hefyd greu tân yn yr awyr agored, rhostio marshmallows blasus, a mynd ar daith nos hudolus i'r traeth– atgofion bythgofiadwy i bawb!

An adventurous time full of fun and excitement at Llain! We had the chance to try a variety of exciting activities – climbing the high ropes, kayaking on the lake, running through the muddy assault course, and practising our archery skills. We also built a campfire outdoors, toasted delicious marshmallows, and went on a magical night walk to the beach – unforgettable memories for everyone!





Diwrnod T Llew Jones








SLIDESMANIA.COM

# Blwyddyn 6

Mae Blwyddyn 6 wedi bod yn canolbwyntio ar ffitrwydd a lles y tymor hwn, gan gymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi cylched yn rheolaidd i ddatblygu gwydnwch ac egni. Rydyn ni hefyd yn falch iawn o’n Llysgenhadon Chwaraeon, sydd â rôl bwysig eleni i hyrwyddo chwaraeon a gweithgarwch corfforol ar draws yr ysgol.

Year 6 have been focusing on fitness and wellbeing this half term, taking part in regular circuit training sessions to help build their resilience and stamina. We are also very proud of our Sports Ambassadors, who have an important role in promoting sport and physical activity across the school this year.












SLIDESMANIA.COM

# Chwaraeon

Pawb wedi mwynhau ac wedi rhoi 100% yng nghystadleuaeth Pêl-droed Abertawe. Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed yr ysgol am eu hymdrech a'u brwdfrydedd! Everyone enjoyed and gave 100% in the Swansea Football Competition. Congratulations to the school football team for their effort and enthusiasm!





Blwyddyn 5 a 6 yng Ngŵyl Rygbi yn y Barn, Parc y Scarlets. Gwaith tîm gwych a llwyddiant i'r ddau dîm! Great team work and success for both teams.



DESMANIA.COM



SLIDESMANIA.COM